

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts, J. Arwel Roberts

### Deiliaid Portffolio

Y Cyngorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)  
Y Cyngorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)  
Y Cyngorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi)  
Y Cyngorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuencid, Llyfrgelloedd a Diwylliant)  
Y Cyngorydd R.G. Parry, OBE, FRAGS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)  
Y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr  
Dirprwy Brif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)  
Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)  
Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd)  
Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid  
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad  
Rheolwr Sgriwtini (AGD)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr Richard Owain Jones, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts, Mrs Anest Frazer, (Aelodau Cyfetholedig), Y Cyngorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Cyn y cyfarfod busnes cyfeiriodd y Cadeirydd â gofid at farwolaeth Syr David Amess, Aelod Seneddol, a fu farw ar ôl cael ei drywanu mewn cymhorthfa yn Essex ddydd Gwener, 15

Hydref, 2021; roedd meddyliau'r Pwyllgor gyda'i deulu a'i gyfeillion ar yr adeg drist hon. Cynhaliwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at Syr David Amess.

## **1 DATGANIAD O DDIDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Bryan Owen ddatgan diddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag unrhyw fater a gyfyd yn gysylltiedig â chartrefi grwpiau bach yr Awdurdod (Cartrefi Clyd) ar y sail bod yr Awdurdod wedi prynu eiddo i'w ddefnyddio fel cartref grŵp bach yn agos i'w gartref.

Ar gais y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad oedd y diddordeb yn un rhagfarnllyd oni bai bod y Pwyllgor yn cynnal trafodaeth lawn mewn perthynas â'r cartref grŵp bychan penodol hwn ger cartref y Cynghorydd Owen.

Yn yr un modd bu i'r Cynghorydd Aled Morris Jones ddatgan diddordeb personol ond nid diddordeb rhagfarnllyd ar y sail bod yr Awdurdod yn y broses o brynu'r eiddo drws nesaf iddo i'w drosi'n gartref grŵp bach (Cartref Clyd).

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda, am iddo fod wedi gwirfoddoli gyda Bwyd Da Môn; bu i'r Cynghorydd Alun Roberts hefyd ddatgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 3 am ei fod yntau wedi gwirfoddoli yn ystod y pandemig ond dywedodd ei fod yn deall nad oedd hyn yn ei atal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth.

Ar gais y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad yw diddordeb o'r math hwn yn un personol nac yn rhagfarnllyd oni bai bod y corff/sefydliad penodol y mae gan yr Aelod(au) ddiddordeb ynddo yn destun trafodaeth.

## **2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

## **3 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2020/21**

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol, yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ddogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad y Cyngor dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y blaenoriaethau gwella a amlinellwyd gan y Cyngor yn ei amcanion llesiant sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor, a rhaid ei gyhoeddi cyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r Cyngor am sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir; ceisio cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl ac ymdrechu i weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau ar yr Ynys i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol ar yr un pryd.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Busnes y Cyngor bod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y dywedodd y Cyngor y byddai'n ei gyflawni o dan ei dri amcan llesiant penodol yn ystod blwyddyn eithriadol a heriol lle bu'n rhaid i'r Cyngor newid ac addasu ei wasanaethau i ddelio â'r disgwyliadau rheoliadol esblygol yn gysylltiedig â lliniaru effaith y pandemig byd eang. Mae'r adroddiad yn amlygu llwyddiannau'r Cyngor yn ogystal â nodi meysydd sydd angen eu gwella ymhellach sydd yn un mor bwysig o safbwynt sicrhau cynnydd a chyflawni targedau. Prif nod y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn oedd cadw trigolion, ymwelwyr a gweithlu'r Cyngor yn ddiogel wrth

barhau i gynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol. Wrth neud hynny llwyddodd y Cyngor i fynd uwch law a thu hwnt i'r hyn a oedd yn angenrheidiol ac mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o'r mentrau/gwasanaethau niferus a roddwyd ar waith un ai mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig neu wrth symud prosiectau arfaethedig yn eu blaen. Gorffennodd yr Aelod Portffolio ei gyflwyniad trwy gydnabod bod y 18 mis diwethaf wedi bod yn anodd i bobl a chymunedau Ynys Môn yn ogystal â staff y Cyngor a bod heriau pellach i ddod yn ystod misoedd y gaeaf. Diolchodd i bawb a oedd wedi cefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod heriol hwn

Bu i'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid gydnabod bod y cyfnod y mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ymdrin ag o wedi bod yn un o'r cyfnodau mwyaf anghyffredin a digynsail yn hanes y Cyngor. Er bod staff wedi ac yn parhau i wynebu pwysau sylweddol mewn rhai gwasanaethau, mae'r cyflawniadau a adlewyrchir arnynt yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn dyst i ymdrechion staff ar adeg pan gafodd nifer eu hailgyfeirio neu eu trosglwyddo i weithio ar faterion yn ymwneud â'r pandemig.

Cynghorodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod rhaid mabwysiadu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel adlewyrchiad teg o berfformiad yn ystod y flwyddyn cyn 31 Hydref, 2021 ac mai dyma fydd y tro olaf i'r gofyniad statudol hwn fod yn gymwys. Gobeithir bod yr adroddiad Perfformiad Blynyddol yn adlewyrchiad cywir o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac y cydnabyddir, er bod nifer o feysydd gwaith newydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig y bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddo, bod yr adroddiad yn dangos effaith yr ymateb ar berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad hanesyddol a mwy traddodiadol.

Wrth gydnabod ymdrech aruthrol staff y Cyngor o'r brig wrth lawr wrth ddelio gyda'r pandemig, bu i'r Pwyllgor gydnabod y pwyntiau canlynol ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 –

- Er ei fod yn cydnabod bod y Cyngor wedi cynorthwyo dros 2,000 o fusnesau ar yr Ynys i sicrhau cymorth ariannol o ganlyniad i'r pandemig drwy ddyrannu grantiau gwerth oddeutu £40m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21, cyfeiriodd y Pwyllgor at yr adroddiadau yn y wasg yn genedlaethol ynglŷn â busnesau a oedd wedi mynd i'r wal ac roedd y Pwyllgor yn dymuno gwybod a oedd data ar gael ynglŷn â nifer y busnesau ar Ynys Môn a oedd wedi mynd i'r wal o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig gan ei bod hi'n bwysig bod gan y Pwyllgor ddarlun diweddar o'r sefyllfa economaidd ar yr Ynys.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd a'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd) er nad oedd yr ystadegau hynny ganddo wrth law y byddai'n ymdrechu i gael gafael ar yr wybodaeth ac yn ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor yn dilyn hynny. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwerthfawrogi pe gellid cael gafael ar yr wybodaeth yn ystod y saith niwrnod nesaf cyn i'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

- Yn dilyn yr ymholiad uchod, cyfeiriodd y Pwyllgor at yr anawsterau recriwtio/staffio sy'n wynebu rhai sefydliadau a busnesau o ganlyniad i'r pandemig ac sydd hefyd yn berthnasol i'r Cyngor Sir mewn rhai meysydd yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol. Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwybod sut oedd y Cyngor yn bwriadu recriwtio i swyddi allweddol yng nghyd-destun yr heriau cyflogi presennol.

Wrth gydnabod bod nifer o awdurdodau lleol a sefydliadu eraill yn wynebu heriau recriwtio ar hyn o bryd a chadarnhau bod swyddi gwag yn y Cyngor, cynghorodd y Prif Weithredwr bod proses recriwtio'r Cyngor yn cynnwys hysbysebu swyddi gwag a chyrraedd darpar ymgeiswyr drwy bob math o wahanol gyfryngau yn cynnwys sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mewn perthynas â recriwtio i swyddi gofal mae'r Cyngor ynghyd â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth

Cymru i geisio dod o hyd i ffyrdd o recriwtio'r bobl orau i swyddi yn y sector gofal yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn cynnwys llacio'r rheoliadau a diwygio canllawiau lle bo modd.

Cynghorodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid nad yw nifer y swyddi gwag yn y Cyngor ar hyn o bryd yn anarferol a bod recriwtio yn broblem dros Gymru ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat. Y peth mwyaf heriol yw gwneud y swyddi hyn y ddeniadol i amrywiaeth o ymgeiswyr addas ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhai gwasanaethau gan fod cynghorau'n cystadlu yn yr un meysydd gwasanaeth ar gyfer yr un bobl. Mae graddfeydd cyflog Cyngor Ynys Môn yn gystadleuol gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhan o ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae Diwrnod Recriwtio galw heibio wedi i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf ac os yn llwyddiannus caiff ei ymestyn i feysydd eraill. Mae gwaith felly ar y gweill i gryfhau recriwtio ac ategir hyn drwy wybodaeth a gedwir yn lleol ledled y Cyngor i adnabod ymgeiswyr addas ar gyfer y swyddi sydd ar gael.

- Mewn perthynas ag effaith y pandemig ar allu'r Cyngor i gyflawni yn erbyn ei amcanion llesiant strategol, cyfeiriwyd at y cyfraddau Covid 19 presennol a oedd yn uwch na 92.8 achos fesul 100k o'r boblogaeth dros gyfnod o 7 diwrnod ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwybod pa gamau a oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r cynnydd mewn achosion o Covid 19 i sicrhau'r cyhoedd bod y sefyllfa dan reolaeth o gofio'r ymateb cyflym a gafwyd yn dilyn y brigiadau o achosion yn ffatri prosesu cig *Two Sisters* yn Llangefni ac yna yn nhref Caergybi yn 2020.

Rhoddodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor, sicrwydd i'r Pwyllgor bod y fframwaith a strwythurau a roddwyd ar waith i ymateb i'r pandemig Coronafeirws yn dal i fod yn eu lle; mae'r Tîm Rheoli Ymateb Brys (EMRT) a oedd yn cwrdd yn wythnosol ar ddechrau'r pandemig ac a fu'n cyfarfod pob pythefnos wrth i achosion leihau wedi dechrau cwrdd yn wythnosol unwaith eto wrth i achosion gynyddu; mae'r Tîm yn dal i fonitro'r sefyllfa'n agos ac yn ymateb yn briodol. Yn yr un modd mae'r grŵp atal amlasiantaeth yn dal i gyfarfod a rhannu gwybodaeth; o fewn y Cyngor mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn monitro cydymffurfiaeth â'r rheolau cyfredol yn y sector busnes, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi bod yn cefnogi ysgolion ers iddynt ail-agor ac mae'r Gwasanaethau Oedolion yn cwrdd yn rheolaidd â'r Bwrdd Iechyd a'r sector gofal preifat. Yr her nawr yw cydbwysu busnes fel arfer â'r gwaith o reoli'r sefyllfa Covid.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y data yn cael ei archwilio'n ddyddiol i adnabod unrhyw glystyrau sy'n datblygu ac fe all y sefyllfa newid yn gyflym iawn. Mae gwybodaeth a negeseuon yn dal i gael eu rhannu'n eang mewn ymgais i gael pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad er mwyn cyfyngu lledaeniad y firws. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda'i bartneriaid i weld beth y gellir ei wneud i warchod y cyhoedd.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y sefyllfa wedi newid o ran sut y mae effaith Covid 19 yn cael ei fesur. Erbyn hyn mae dros 53,000 o unigolion ar yr Ynys wedi cael eu brechiad cyntaf, neu'r ddwy, ac yn y rhanbarth mae 4,000 o bobl wedi derbyn brechiad atgyfnerthu; ac o ganlyniad er bod y gyfradd achosion yn uchel mae nifer y bobl sydd angen triniaeth yn yr ysbyty o ganlyniad i Covid 19 yn gymharol isel ac yn parhau i fod yn gyson. Mae'r gyfradd yn yr ysbyty felly'n fatrics allweddol ar gyfer monitro effaith y firws ac nid yw'r gyfradd hon wedi newid. Rhaid cofio hefyd bod llacio'r rheoliadau wedi hwyluso lledaeniad y firws. Mae canran uchel o achosion o'r firws mewn ysgolion ar hyn o bryd er eu bod yn dal i fod ar agor.

Gobeithir y bydd yr Ynys yn troi cornel cyn bo hir ac y bydd y gyfradd yn dechrau gostwng, a'r pwynt pwysig yw oherwydd y rhaglen frechu nid yw derbyniadau i'r ysbyty oherwydd Covid 19 wedi cynyddu er y gyfradd uchel o achosion. Yn ogystal â hyn, yr wythnos diwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Rheoli Coronafeirws ar gyfer Gymru ar gyfer misoedd yr hydref a'r gaeaf sydd yn nodi'r mesurau ar gyfer y cyfnod hwn yn genedlaethol a'r modd y maent yn gysylltiedig â'r ymateb rhanbarthol a lleol ledled Cymru <<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-10/coronavirus-control-plan-autumn-and-winter-2021-update.pdf>>. I sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel dros y misoedd nesaf, rhaid i bobl fanteisio ar y cynnig o frechlyn a pharchu'r cyngor iechyd presennol gyda phwyslais ar gymryd cyfrifoldeb personol dros eu hiechyd.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y sefyllfa mewn perthynas â phobl ifanc sydd ddim mewn Addysg, Gwaith neu Gyflogaeth (NEET) lle'r oedd y dangosydd perfformiad yn Goch oherwydd bod y Cyngor yn y chwarter isaf ar gyfer y categori hwn am y flwyddyn. Wrth nodi bod hyn o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwn i'w reolaeth, gan na chafodd y Cyngor wybod am sawl un o'r unigolion hyn tan fis Tachwedd ar adeg yr arolwg ciplun, roedd y Pwyllgor yn dymuno cael eglurder ynglŷn â sut y digwyddodd hyn a pha un ai a oedd yn berthnasol i awdurdodau eraill yn ogystal

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod y diffyg gwybodaeth oherwydd problemau yn ymwneud ag adrodd am ddata a'r amserlen adrodd; mae'r mater wedi'i godi gyda Gyrfa Cymru gan y Prif Swyddog leuenctid ac mae trefniadau addas wedi cael eu rhoi ar waith; mae'r mater a oedd yn fater gweithdrefnol yn y bôn wedi effeithio ar gynghorau eraill hefyd. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth ynglŷn â beth mae'r data yn ei gynrychioli a pha un ai a ydi'n cwrdd â'r anghenion fel ac y mae ar hyn o bryd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn â nifer y bobl ifanc a gafodd eu heffeithio gan yr oedi wrth hysbysu'r Cyngor am bobl ifanc nad oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, dywedodd y Swyddog er nad oedd y data ganddo wrth law y byddai'n anfon yr wybodaeth ymlaen at aelodau'r Pwyllgor wedi'r cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd bod hynny'n digwydd o fewn y saith niwrnod nesaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor, ei bod hi fel Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod i drafod y mater pan ddaeth i'r amlwg fel rhan o broses o adrodd ar Gerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 2020/21 a bod y mater wedi'i ddilyn i fyny wedi hynny. Er bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Gyrfa Cymru i sicrhau y bydd data'n cael ei adrodd yn brydlon yn y dyfodol, dylid nodi bod y Cyngor wedi gweithredu ar yr wybodaeth ar unwaith ar ôl ei dderbyn ac wedi cysylltu â'r bobl ifanc dan sylw. Cafwyd diweddariad ar y canlyniadau i'r bobl ifanc yma o ran symud ymlaen, neu beidio, i gyflogaeth, addysg bellach neu brentisiaethau gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ym mis Mehefin, 2021.

**Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2020/21 erbyn y dyddiad statudol 31 Hydref a bod Swyddogion, mewn cydweithrediad â'r Deilydd Portffolio Busnes Corfforaethol, yn cwblhau'r adroddiad fel y gellir ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor Llawn erbyn y cyfarfod ar 26 Hydref, 2021.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL –**

**Y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd) a'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i anfon yr wybodaeth ganlynol ymlaen at aelodau'r Pwyllgor o fewn y saith niwrnod nesaf:**

- Nifer y busnesau ar Ynys Môn sydd wedi mynd i'r wal oherwydd y pandemig.
- Nifer y bobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio o ganlyniad i'r oedi a fu o ran hysbysu'r Cyngor ynglŷn â phobl ifanc nad oedd mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET).

#### **4 ENWEBIAD I'R GRWP LLYWIO GWASTRAFF GYDA WRAP CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini mewn perthynas ag enwebu aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Grwp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Wrth ddarparu gwybodaeth gefndirol adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) bod y Pwyllgor, wrth drafod perfformiad Chwarter 1 2020/21 y Cyngor yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol a lleol yn ei gyfarfod ar 13 Medi, 2021, wedi amlygu bod dangosydd 32 ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer 2021/22 – canran y gwastraff a gafodd ei aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio – yn tanberfformio ar hyn o bryd (64.5% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y Chwarter). Hysbyswyd y Pwyllgor bryd hynny bod grwp llywio wedi cael ei sefydlu i liniaru'r tanberfformiad cyfredol a bod aelodaeth y grwp yn cynnwys uwch aelodau, swyddogion a phartneriaid o Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru (ceir manylion yn atodiad 1 yn yr adroddiad). O ganlyniad, wrth ystyried y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 27 Medi penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y dylid enwebu aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Grwp Llywio Gwastraff a oedd newydd gael ei sefydlu. Gwahoddir y Pwyllgor felly i ystyried enwebu aelod i'r grwp dan sylw.

**Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd John Arwel Roberts i wasanaethu fel aelod a chynrychiolydd Sgriwtini ar y Grwp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru.**

#### **5 BLAEN RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn ymgorffori Blaen raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr argymhellir gohirio'r cyfarfod ar y gyllideb ar 1 Tachwedd, 2021 tan ar ôl y Nadolig.

Dygodd y Cadeirydd sylw at raglen lawn cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Tachwedd, 2021 a gofynnodd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi lle bo'n briodol i ohirio rhai o'r eitemau ar y rhestr hyd nes y cyfarfod ym mis Ionawr 2022.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r blaen raglen waith ar gyfer 2021/22 yn amodol ar ohirio'r cyfarfod ar 1 Tachwedd, 2021 ac ystyried aildrefnu'r eitemau busnes sydd wedi eu trefnu ar gyfer y cyfarfod ar 16 Tachwedd, 2021.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r swyddogion perthnasol i ailystyried yr eitemau busnes ar gyfer y cyfarfod ar 16 Tachwedd, 2021 gyda'r bwriad o ohirio rhai eitemau hyd nes y cyfarfod ym mis Ionawr, 2022.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones  
Cadeirydd**